

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FERCHER 17 GORFFENNAF 2019.

PRESENNOL: Cynghorydd - Eric Roberts, Cadeirydd

Cynghorwyr J. Abbott MBE, A. D. McCann, C. McDermott, Geoff McGinn, S. Magee, P. M. Parry, K. Roberts, H. B. Rowlands and D. A. Williams.

1. **YMDDIHEURIADAU – Cynghorwyr S. Conrad-Smith and D. Rhys Thomas J.P.**
2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB - Cyng. P. Parry and J Abbott – eitem 4.2**
- 4.1 **LUE/2019/7 Neilldu, Stanley Mill Lane, Lon St Ffraid, Bae Trearddur Bay.**

Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer y defnydd ategol presennol o'r Boathouse a'r tir sy'n cyffinio â hi fel lleoliad achlysurol ar gyfer priodas a pharti.

Cytunwyd y byddai eitem 4.1 yn cael ei drafod yn syth gan fod yr ymgeisydd yn bresennol a'i fod wedi cymryd yn ganiataol bod y cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus i drafod yr eitem. Esboniodd y Clerc nad oedd hyn yn gywir.

Nid oedd yr ymgeisydd yn dymuno siarad ar y mater heblaw am dynnu sylw at y ffaith nad cais cynllunio oedd hwn ond cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ac nad oedd y lefelau mynediad a lefelau sŵn yn berthnasol i'r cais.

Roedd yr ymgeisydd wedi hel tystiolaeth bod y lleoliad wedi cael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd am gyfnod o 10 mlynedd ac nid oedd y Cyngor yn anghytuno â hyn, fodd bynnag roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod preswylwyr yn pryderu am y lefelau mynediad a'r sŵn pan fyddai'r digwyddiadau hyn ymlaen.

3. **SAFLE HAMDDEN**

Roedd twrniod CSYM o'r farn fod angen cyrraedd y pwynt lle roedd yr holl ddogfennau wedi'u llofnodi gan y ddau Gyngor, fel mai'r unig beth a oedd ar ôl cyn trosglwyddo'r brydles oedd cydsyniad y perchennog. Po gynted y gellid cael popeth wedi ei arwyddo y cynharaf y gallent fynd ar ôl dyddiad gwrandawriad Llys. Cysylltwyd â chyfreithwyr TCC ac roedd angen iddynt gadarnhau'r telerau fel y gellid drafftio cytundeb.

Atgoffwyd Aelodau fod TCC wedi cytuno ym mis Mehefin 2016 i dalu £25,000 dros gyfnod o 10 mlynedd o flwyddyn dau i flwyddyn 11 fel ystyriaeth ar gyfer trosglwyddo'r ardal hamdden.

Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r cyngor cymuned wneud popeth posibl i gadw'r ardal hamdden er mwynhad y gymuned. Fodd bynnag, cydnabuddwyd bod y sefyllfa wedi newid ers 2016 a bod yna risg wrth drosglwyddo'r brydles. Roedd y perchennog yn parhau i wrthwynebu'r aseiniad. Roedd y tir wedi'i ddynodi'n ardal lliniaru llifogydd ar gyfer Bae Trearddur a byddai yn anodd cael datblgu arno a gallai hyn gyfyngu ar y cyfleoedd i gynhyrchu arian i'w gynnal hefyd. Nodwyd bod angen gwneud gwaith

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FERCHER 17 GORFFENNAF 2019.

ar y pafiliwn a bod y ffiniau heb eu cynnal ers blynyddoedd. Nid oedd y Cyngor Sir yn torri'r borfa ac ati fwyach chwaith.

Roedd y broses eisoes wedi cymryd mwy na thair blynedd a golyga hyn fod llai o amser ar ôl ar y brydles.

Penderfynwyd: gofyn i'r gost wreiddiol o £25,000 gael ei lleihau ar sail pro ata i adlewyrchu'r ffaith bod llai o amser ar ol ar y brydles. Byddai'r Clerc yn gweithio gyda'r Cadeirydd i lunio llythyr drafft i'w ystyried.

4. CEISIADAU CYNLLUNIO

4.2 FPL/2019/183 - Porth Diana Boat Yard, Bae Trearddur.

Cais llawn i addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad.

4.3 VAR/2019/43 - Garreg Fawr, Bae Trearddur– wedi ei dynnu'n ol.

5. CYFARFOD NESAF 30.7.2019